# Ysgol Llanhari

Pennaeth | Headteacher:
**Mrs Meinir Thomas**

Llanhari, Pontyclun, Rhondda Cynon Taf, CF72 9XE
☏ 01443 237824 | 🖷 01443 227365 | post@llanhari.com
**www.llanhari.com**

25ain o Hydref 2023

Annwyl Rieni / Ofalwyr

Hoffwn ddiolch i chi gyd fel rhieni am eich cefnogaeth ar hyd yr hanner tymor prysur sy'n dirwyn i ben Ddydd Gwener. Rwy'n naturiol yn ddiolchgar i'r staff am eu gwaith di-flino ac i'r disgyblion am eu brwdfrydedd a chyd-weithrediad parod. Yn wir, mae gwerthoedd newydd Llanhari sef Cymuned, Cymreictod a Chynnydd yn sicr wedi bod yn ganolog i fywyd yr ysgol yn ystod yr hanner tymor hwn.

Hoffwn gymryd y cyfle yn y llythyr hwn i nodi rhai materion pwysig a hefyd i'ch atgoffa o rai dyddiadau pwysig. Cynhelir HMS ysgol gyfan Dydd Gwener yma. Fe fydd staff ein hysgolion clwstwr yn ymuno â ni ac fe fydd pawb yn cyd-weithio ar ein darpariaeth o ran y Cwricwlwm i Gymru. Mae llawer o waith da wedi ei gyflawni eisioes ac edrychwn ymlaen at weithio gyda'n gilydd ar y camau nesaf. Gallaf hefyd gadarnhau ein bod wedi cytuno ar ddyddiad ar gyfer HMS yn ystod Tymor y Gwanwyn sef y 9fed o Chwefror 2024. Gweler isod felly gadarnhad o holl ddyddiadu HMS 2023-24 Ysgol Llanhari.

| | |
|---|---|
| 4ydd o Fedi 2023 | 22ain o Ragfyr 2023 |
| 17ain o Hydref 2023 | 9fed o Chwefror 2024 |
| 20fed o Dachwedd 2023 | 22ain o Orffennaf 2024 |

Cynhelir y digwyddiad cyntaf eleni a drefnir gan Ffrindiau Llanhari nos Iau yma, sef disgo Calan Gaeaf i ddisgyblion yr adran gynradd. Cynhelir y digwyddiad eleni yn neuadd yr adran gynradd. Rwy'n ddiolchgar iawn i aelodau Ffrindiau Llanhari am eu hymdrechion yn codi arian er budd disgyblion yr ysgol. Mae'r pwyllgor yn awyddus iawn i ddenu aelodau newydd ac felly os ydych yn teimlo y gallech gynorthwyo cysylltwch â nhw os gwelwch yn dda ar ffrindiaullanhari@gmail.com Cynhelir y cyfarfod nesaf yn yr ysgol ar y 14eg o Dachwedd am 5 o'r gloch.

Yn dilyn arolwg iechyd a diogelwch diweddar o'r safle, fe fydd gatiau'r ysgol yn cael eu cau yn ystod y dydd, gan gychwyn yn yr wythnos wedi hanner tymor. Ni fydd modd i ymwelwyr na rhieni ddod ar y safle oni bai bod trefniant penodol wedi ei wneud. Mae hyn er mwyn sicrhau bod ein plant i gyd yn ddiogel. Rydym wedi bod yn cynnal trafodaethau gydag Awdurdod Rhondda Cynon Taf ynglyn â gatiau blaen newydd ac mae hyn i barhau. Mae'r drefn newydd o ran y clwb brecwast i weld yn gweithio, felly diolch yn fawr i'r holl rieni cynradd sy'n sicrhau eich bod yn gadael y safle erbyn 8.15yb cyn i'r disgyblion uwchradd gyrraedd.

Ar hyn o bryd, rydym yn diweddaru polisi ymddygiad cadarnhaol yr ysgol (*Teulu Llanhari*) Fel y gwyddoch o ohebiaeth blaenorol, rydym wedi bod yn gweithio ar hybu ymddygiad cadarnhaol ers y llynedd ac mae'n braf iawn dweud bod ymateb yr holl ddisgyblion wedi bod yn ardderchog. Sylweddolwn bod cydweithio â chi fel rhieni yn hanfodol felly gofynnwn yn garedig, os oes gennych sylwadau ar y fersiwn bresennol o *Deulu Llanhari* i'w hanfon atom ar post@llanhari.com erbyn y 7fed

o Dachwedd er mwyn inni eu hystyried. Mae gennym ddisgwyliadau uchel o ran ymddygiad ar draws yr ysgol.

Yn ystod yr hanner tymor hwn, bu'n timau chwaraeon yn yr adran gynradd ac uwchradd yn brysur yn ymarfer a chystadlu. Rydym yn ddiolchgar iawn i elusen RR81 am ei haelioni am gyfrannu y wisg newydd i'n timau rygbi a phêlrwyd.









Edrychwn ymlaen at groesawu Mrs Ffion Picton (Rowlands gynt) nôl i'r ysgol ar ôl hanner tymor a diolch yn fawr i Miss Tanwen Jones am ei gwaith gyda dosbarth Drudwy ers mis Medi. Canol mis Tachwedd, fe fydd Mrs Tessa Williams yn gadael Llanhari ar ôl 10 mlynedd er mwyn cychwyn menter gyffrous newydd yn gofalu am blant. Rydym yn diolch iddi am ei chyfraniad nodedig i'r ysgol dros y blynyddoedd ac yn dymuno'n dda iddi.

Ar ddiwedd hanner tymor prysur felly, rwy'n dymuno gwyliau hapus i bawb! Hyderaf y bydd y cyfarfodydd rhieni cynradd a blwyddyn 7 yr wythnos hon yn rhai cadarnhaol. Os oes unrhyw ddisgybl uwchradd heb ddychwelyd arian noddi o'n teithiau cerdded, gofynnir yn garedig iddynt wneud hynny yn syth ar ôl y gwyliau. Pob hwyl i'r disgyblion sy'n astudio Daearyddiaeth TGAU a Safon Uwch ar eu taith i Wlad yr Iâ yn ystod y gwyliau, gyda diolch ymlaen llaw i Miss Helen Lougher am drefnu ac am arwain y daith. Pob hwyl hefyd i ddisgyblion blwyddyn 11 a fydd i gyd yn sefyll arholiad TGAU Cymraeg Iaith yn syth wedi hanner tymor.

Cofiwch ddilyn ein cyfryngau cymdeithasol X @YsgolLlanhari ac Instagram ysgol_llanhari am fanylion cyfredol o'n holl brysurdeb!

Yn gywir

Meinir Thomas

Meinir Thomas
Pennaeth

Ysgol Llanhari

Pennaeth | Headteacher:
**Mrs Meinir Thomas**

Llanhari, Pontyclun, Rhondda Cynon Taf, CF72 9XE
☎ 01443 237824 | 🖷 01443 227365 | post@llanhari.com
**www.llanhari.com**

25th of October 2023

Dear Parents / Carers

I would like to thank you all as parents for your support throughout this busy half term which ends on Friday. I am naturally grateful to the staff for their tireless work and to the pupils for their enthusiasm and constant cooperation. Indeed, Llanhari's new values of Community, Welshness and Progress have certainly been central to the life of the school during this half term.

I would like to take the opportunity in this letter to note some important issues and also to remind you of some important dates. A whole school INSET will be held this Friday. The staff of our cluster schools will join us and everyone will work together on our provision in terms of the Curriculum for Wales. A lot of very good work has already been done and we look forward to working together on the next steps. I can also confirm that we have agreed on a date for our INSET during the Spring Term which is the 9th of February 2024. Please see below a confirmation of all the Ysgol Llanhari's INSET days during 2023-24.

| | |
|---|---|
| 4th of September 2023 | 22nd of December 2023 |
| 17th of October 2023 | 9th of February 2024 |
| 20th of November 2023 | 22nd of July 2024 |

The first event this year, a Halloween disco for pupils in the primary department, organised by Ffrindiau Llanhari will take place this Thursday evening. This year's event will be held in the primary department hall. I am very grateful to the members of Ffrindiau Llanhari for their efforts in raising money for the benefit of the school's pupils. The committee is very keen to attract new members and so if you feel that you could help please contact them on ffrindiaullanhari@gmail.com The next meeting will be held at the school on the 14th of November at 5 o'clock.

Following a recent health and safety inspection of the site, the school gates will be closed during the day, commencing the week after half term. It will not be possible for visitors or parents to come onto the site unless a specific arrangement has been made. This is to ensure that all our children are safe. We have been holding discussions with Rhondda Cynon Taf Authority regarding new front gates and this is to continue. The new arrangement regarding the breakfast club seems to be working, so a big thank you to all the primary parents who ensure that you leave the site by 8.15am before the secondary pupils arrive.

We are currently updating the school's positive behaviour policy (*Teulu Llanhari* ) As you are aware from previous correspondence, we have been working on promoting positive behaviour since last year and it is very pleasing to say that the reaction of all the pupils has generally been excellent. We realise that working together with you as parents is essential so we ask you kindly, if you have comments on the current version of *Teulu Llanhari* could you e-mail them to us on

post@llanhari.com by the 7th of November for our consideration. We have high expectations in terms of behaviour across the school.

During the half term, sports teams in the primary and secondary section have been busy training and competing. We are very grateful to the RR81 charity for its generosity in donating the new kit to our rugby and netball teams.









We look forward to welcoming Mrs Ffion Picton (nee Rowlands) back to school after half term and thank you to Miss Tanwen Jones for her work with Drudwy's class since September. In mid-November, Mrs Tessa Williams will leave Llanhari after 10 years to start an exciting new initiative as a child minder. We thank her for her notable contribution to the school over the years and wish her well.

So, at the end of a busy half term, I wish everyone a happy holiday! I trust that the year 7 and primary parents' meetings this week will be positive ones. If there are any secondary pupils who have not returned sponsorship money from our walks, they are kindly asked to do so immediately after the holidays. Good luck to the pupils studying GCSE and A Level Geography on their residential visit to Iceland during the holidays, with thanks in advance to Miss Helen Lougher for organising and leading the trip. Good luck also to the year 11 pupils who will all be taking a GCSE Welsh Language exam immediately after half term.

Please remember to follow our social media X @YsgolLlanhari and Instagram ysgol_llanhari for current news and photos of everything going on at school!

Yours sincerely

Meinir Thomas

Meinir Thomas
Headteacher